Canllawiau ar gyfer y broses Hyfforddiant Sylfaenol Allan o'r Rhaglen (OOP) yng Nghymru

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Feddygon Sylfaen presennol sy'n dymuno cymryd peth amser allan o'u hyfforddiant Sylfaen rhwng eu blynyddoedd F1 a F2 a dylid eu darllen ar y cyd â'r Canllaw Aur. Mae hyn fel arfer yn para am gyfnod o 12 mis.

Broses ar gyfer ceisiadau OOP

Yn y lle cyntaf, dylai Meddygon Sylfaen drafod eu bwriadau gyda'u Goruchwyliwr Addysg a/neu Gyfarwyddwr Rhaglen Sylfaen. Yna mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi'r Ffurflen Gais TOFP genedlaethol (a geir ar wefan UKFPO), a'i chyflwyno i Ysgol Sylfaen Cymru drwy e-bost at HEIW.FoundationSchool@wales.nhs.uk.

Rhaid derbyn ceisiadau o leiaf **chwe mis** cyn dechrau'r cyfnod OOP y gofynnwyd amdano, gyda'r bwriad y bydd yn cael ei gadarnhau gydag o leiaf 3 mis o rybudd ar gyfer pob parti. **Sylwch na dderbynnir ceisiadau hwyr neu anghyflawn.**

Bydd y cais OOP yn cael ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Ysgol Sylfaen (neu'r Dirprwy) a darperir cadarnhad o'r canlyniad drwy e-bost o fewn un mis calendr.

Pan dderbynnir nifer fawr o geisiadau gan garfan, bydd ceisiadau'n cael eu cymeradwyo yn seiliedig ar ddewis ar hap unwaith y bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi mynd heibio.

Tynnu cais OOP yn ôl

Os yw Meddyg Sylfaen yn dymuno tynnu ei gais OOP yn ôl, dylent hysbysu'r Ysgol Sylfaen cyn gynted â phosibl, a heb fod yn hwyrach yn y broses na **10 diwrnod gwaith** ar ôl cadarnhad bod eu cais wedi'i gymeradwyo.

Os bydd y Meddyg Sylfaen yn tynnu eu cais yn ôl ar ôl y pwynt hwn, bydd eu dyraniad lleoliad gwreiddiol wedi cael ei ryddhau ac efallai na fydd yn bosibl dyrannu rhaglen hyfforddi amgen iddynt yn ei le.

Dychwelyd o OOP

Trwy gyflwyno cais OOP, mae'r Meddyg Sylfaen yn ymrwymo i ddychwelyd i hyfforddiant F2 yng Nghymru ar y dyddiad dychwelyd cymeradwy.

Bydd yr Ysgol Sylfaen mewn cysylltiad chwe mis cyn y dyddiad dychwelyd cymeradwy i gael cadarnhad bod y Meddyg Sylfaen yn dal i fwriadu dychwelyd i'r Rhaglen Sylfaen yng Nghymru, a chydlynu a chadarnhau eu lleoliadau hyfforddiant yn y dyfodol.

Er bod y Meddyg Sylfaen yn sicr o ddychwelyd i Raglen Sylfaen Cymru, nodwch na ellir gwarantu cylchdro, ysbyty, Bwrdd Iechyd neu ranbarth penodol.